

Canolfan Ganser Felindre Ward: Uned Cefnogaeth Weithredol (UCW)

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol Dirybudd

**Dyddiad yr arolygiad
6 Chwefror 2014**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif y Dudalen
1. Rhagarweiniad	2
2. Methodoleg	4
3. Crynodeb	5
4. Canfyddiadau	
4a. Profiad y Cleifion	7
4b. Darparu Hanfodion Gofal	8
4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	12
4ch. Ansawdd a Diogelwch	13
5. Y Camau Nesaf	15
Atodiad A – Cynllun Gwella	16

1. Rhagarweiniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd ar yr Uned Cefnogaeth Weithredol (UCW), oedd yn cynnwys Wardiau Dynion a Merched, yng Nghanolfan Ganser Felindre, rhan o Ymddiriedolaeth Gig Felindre, Ddydd Iau, 6 Chwefror 2014. Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom arsylwi ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y Cleifion
- Darparu Hanfodion Gofal
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd a Diogelwch.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ganolfan rhagoriaeth arbenigol sy'n gydnabyddedig drwy'r wlad ar gyfer darparu oncoleg heb lawdriniaeth gan gynnwys radiotherapi a chemotherapi; gofal lliniarol arbenigol; trallwysu gwaed; imiwnohaematoleg arbenigol; gwaith cyfeirio profi gwaed cyn geni; ac imiwnoleg trawsblannu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi dros 3000 o staff ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau oncoleg arbenigol, heb fod yn llawdriniaethol, i oddeutu 1.5 miliwn o bobl yn Ne-ddwyrain Cymru, ac i Gymru gyfan ar gyfer rhai gwasanaethau, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r ysbytai a reolir gan y Byrddau Iechyd Lleol. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn casglu, prosesu a danfon gwaed a chynnyrch gwaed i ysbytai ar draws De a Chanolbarth Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gartref i'r cyrff cenedlaethol canlynol ar ran GIG Cymru;

- Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)
- Canolfan Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR CRC)
- Canolfan Genedlaethol Cydweithredu dros Ganser (NCC-C)
- Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol ar Ganser – y Tîm Craidd (CNSAG - CT)

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).

Mae Canolfan Ganser Felindre yn un o'r canolfannau canser mwyaf yn y DU. Bob blwyddyn darperir dros 5,000 o atgyfeiriadau newydd ac oddeutu 50,000 o apwyntiadau cleifion newydd. Mae 3 ward i gleifion mewnol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Y rhain yw:

- Yr Uned Cefnogaeth Weithredol (ASU)
- Ward y llawr cyntaf
- Ward y Dywysoges Margaret.

Mae cyfanswm o 47 o wlaŵ wedi eu taenu ar draws y ganolfan. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystafell bwrpasol i blant, y gall teuluoedd ei harchebu i'w galluogi i gael amser preifat gyda'u plant ac aelodau eraill o'r teulu.

2. Methodoleg Arolygu

Mae 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn adolygu'r ffordd y mae urddas cleifion yn cael ei gynnal o fewn ward/uned ysbyty a'r gofal nyrsio sylfaenol, elfennol y mae'r cleifion yn ei dderbyn¹. Rydym yn adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gadwyd hyd yma gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff y ward
- Trafodaethau gyda'r Uwch Reolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n tanategu gofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol gyda golwg ar amgylchedd y gofal ac ymarfer gofal.

Mae'r arolygiadau hyn gan AGIC yn llwyddo i gael 'ciplun' o safonau'r gofal y mae'r cleifion yn ei dderbyn ar wardiau/unedau ysbytai, a all bwyntio at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

Fe wnaethom gyflwyno trosolwg o'n prif ganfyddiadau a'n gofynion i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth y GIG yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ddiwedd ein harolygiad. Cafodd pryderon brys, a gododd o'r arolygiad, eu hysbysu i Ymddiriedolaeth y GIG drwy gyfrwng llythyr Gweithredu ar Unwaith ac mae'r canfyddiadau hyn wedi eu disgrifio'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

¹ *Hanfodion Gofal*, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn Felindre yn cael ei redeg yn dda, gyda'r gofal a'r sylw dyledus yn cael ei roi i safonau gofal proffesiynol. Cawsom fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro sydd wedi eu hen sefydlu ynghylch profiad y cleifion o ofal, ymarfer clinigol, systemau gwaith diogel, hyfforddiant a datblygiad staff ac agweddau ehangach ar lywodraeth sefydliadol.

Yn ystod ein hymweliad Arolygu Urddas a Gofal Hanfodol â Chanolfan Ganser Felindre, sylwasom ar nifer o feysydd o ymarfer nodedig gan gynnwys y Grŵp Urddas Cleifion, oedd yn dangos ei fod yn ymroi i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddefnyddio arolygon profiad cleifion, a'r hyn yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ei wneud mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd. Hysbysodd cleifion ni eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod eu hamser yn yr UCW ac fe wnaethom arsylwi cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fe wnaeth ein sgysiau gyda chleifion a pherthnasau yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre dynnu sylw at y ffaith eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog yn weithredol i siarad â'r staff a gofyn cwestiynau ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eu gofal. Buom yn gwyllo'r staff yn annog cleifion i gadw cymaint o annibyniaeth ag yr oedd modd o fewn amgylchedd yr ysbyty.

Er gwaethaf yr arfer da a arsylwyd uchod, fe wnaethom ganfod y canlynol lle mae angen gwelliannau fel yr eglurir yn Atodiad A:

- Nid yw amgylchedd y ward yn ddelfrydol oherwydd bod y cyfleusterau cawod/toiled ar gyfer y cleifion yn gyfyngedig a'r rhaglen o foderneiddio'r amgylchedd yn parhau.
- Roedd ystafell deuluol ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, awgrymai trafodaethau mai ystafell ddigroeso oedd hon, a heb ei lleoli'n ddelfrydol nac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd.
- Canfuom beth blerwch ar y ward a bocsys wedi eu storio ar lefel y llawr o fewn y cypyrddau storio.

- Canfuwyd bod comôd oedd wedi ei gadw mewn ystafell storio angen ei lanhau.
- Gwelsom droli weithdrefnau heb neb yn gofalu amdani a dygwyd hon i sylw'r Ymddiriedolaeth yn ystod yr arolygiad
- Proses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) wedi ei gweithredu'n anghywir
- Mynediad posibl at feddyginiaeth heb ganiatâd
- Ffurflen 'Na cheisier dadebru (DNAR)' wedi ei llenwi'n anaddas.
- Ni chanfuwyd bod cofnodion cleifion yn cynnwys offeryn asesu poen cydnabyddedig.
- Cafwyd fod dogfennaeth nyrsio yn brin o dystiolaeth o ofal unigolyn-ganolog, a'i bod wedi ei chwblhau'n anghyson.
- Cofnod gweini meddyginiaeth heb ei gwblhau.

Hoffai AGIC ddiolch i'r staff nyrsio yng Nghanolfan Ganser Felindre oedd yn barod eu cymorth drwy gydol ein harolygiad.

4. Canfyddiadau

4a Profiad y Cleifion

Yn ystod yr arolygiad hwn ni wnaethom ganfod unrhyw agwedd ar y gwasanaeth oedd angen ei wella yn y maes hwn.

Ar y cyfan, sylwasom ar gleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a gwelsom yr ymdrechion a wneid gan y staff i sicrhau bod cleifion a pherthnasau yn cael cymaint o breifatrwydd ag yr oedd modd ar adegau pan oeddent yn cael eu cynorthwyo gyda'u gofal personol, neu'n cael sgwrs breifat ag aelod o'r tîm aml-broffesiwn.

Amlygodd ein sgysiau gyda chleifion a pherthnasau yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn anogaeth weithredol i siarad â'r staff a gofyn cwestiynau ynghylch unrhyw agwedd ar eu gofal. Cadarnhaodd trafodaethau gyda pherthnasau eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrandio arnynt bob amser ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth.

Roedd mwyafrif y cleifion a'r perthnasau y buom yn siarad â hwy yn canmol y gofal a'r gefnogaeth yr oeddent yn ei derbyn yn fawr. Mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau cadarnhaol a wnaeth y cleifion i'r tîm o staff yn y deuddeng mis diwethaf fel a ganlyn:

'I came in on a stretcher – in shock! I'm walking out by myself. This is thanks to your care humour, professional attitude and sense of fun. Thank you. I will not forget you'.

'Thank you so much for all your wonderful care'.

'Everyone has been so kind and reassuring. I can't thank you all enough'.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â chleifion a theuluoedd yn ddyddiol. Mae Felindre hefyd wedi sefydlu Grŵp Urddas

Cleifion² sy'n ystyried barn unigolion yn rheolaidd drwy ddefnyddio holiaduron a gwblhawyd gan gleifion. O ganlyniad, mae unrhyw faes sy'n peri pryder yn cael ei ganfod yn fuan ac eir i'r afael ag ef er mwyn gwella profiadau cleifion.

Mae Arolwg Profiad Cleifion yr Ymddiriedolaeth (a gwblhawyd yn ystod mis Rhagfyr 2013) yn enghraifft bellach o ymgysylltu â'r cyhoedd. Dangosodd yr arolwg hwn lefel uchel iawn o fodlonrwydd cleifion ar y gwasanaeth; problemau a ganfuwyd wedi derbyn sylw ar unwaith, fel y dywedwyd yn y dadansoddiad a gafodd ei gyhoeddi o'r arolwg. Roedd cylchlythyr y Grŵp Urddas Cleifion (rhifyn Medi 2013) hefyd yn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu gwybodaeth yn rhwydd i bobl â nam synhwyrdd.

Dangosodd sgysiau gyda chleifion fod ganddynt beth dewis a dylanwad o ran eu gofal dyddiol. Er enghraifft, dywedent wrthym eu bod yn cael defnyddio'r cyfleusterau toiled yn fuan, yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag oedd modd ac yn cael eu helpu i eistedd allan o'r gwely bob hyn a hyn yn gyson.

Roedd hi'n amlwg oddi wrth drafodaethau gyda chleifion, staff nyrsio a staff arlwy, oedd ar ddyletswydd ar amser yr arolygiad hwn, fod pwyslais mawr yn cael ei roi ar 'amddiffyn amseroedd bwyd', a chynnig cymorth gyda bwyta ac yfed yn ôl yr angen. Llwyddasom hefyd i gadarnhau bod cleifion yn cael cynnig amrywiaeth o fwyd a byrbrydau ar adegau amrywiol yn ystod y dydd yn ychwanegol at yr amseroedd bwyd dynodedig.

²Grŵp Urddas Cleifion: Grŵp o staff amlddisgyblaethol sy'n gweithio ar draws Canolfan Ganser Felindre sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i drafod a gweithredu ar faterion urddas cleifion a theuluoedd.

4b. Darparu Hanfodion Gofal

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud pum canfyddiad sy'n gofyn am welliant yn y maes yma, ac mae ein gofynion wedi eu hegluro yn Atodiad A.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Buom yn arsylwi'r rhyngweithio rhwng staff y ward a chleifion/perthnasau yn unol â'r safon a ddisgwylir gan 'Hanfodion Gofal'. Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a'r perthnasau y buom yn siarad â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ynghylch amrywiol agweddau ar ddarparu gofal.

Sylwasom ar staff yn siarad â chleifion a chydweithwyr mewn ffordd ddoeth a digyffro drwy gydol ein hymweliad. Cadarnhaodd cleifion eu bod yn medru adnabod staff oedd yn medru siarad Cymraeg oherwydd y dillad swyddogol yr oeddent yn eu gwisgo. Roedd system gylch ar gael i gleifion oedd wedi colli eu clyw ac roedd cardiau lluniau ar gael i staff eu defnyddio i gynorthwyo cleifion.

Parchu Pobl

Gwelsom esiamplau niferus o ryngweithio parchus rhwng staff a chleifion. Roedd y staff yn gwrtais ac yn gyffredinol ddoeth wrth siarad â chleifion, ac roeddent yn hapus i sgwrsio â chleifion yn Gymraeg os mai hynny oedd orau gan y claf. Roedd yr adborth a dderbyniasom gan gleifion yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag agwedd ac ymddygiad y staff.

Sicrhau Diogelwch

Dangosodd trafodaeth gyda rheolwr y ward a staff eraill fod lefelau staffio yn cael eu hystyried yn ddigonol. Dywedodd rheolwr y ward wrthym eu bod yn medru cael staff ychwanegol pan oedd angen (h.y. mewn ymateb i anghenion cymhleth y canfuwyd eu bod gan gleifion).

Arsylwyd rownd feddyginiaethau ac roedd hi'n hawdd adnabod y staff oedd yn cyflawni dyletswyddau gweini meddyginiaeth oddi wrth eu ffedogau coch.

Sylwasom hefyd fod yr aelod o staff yn aros gyda'r claf tra roedd yn cymryd ei feddyginiaeth.

Yn gyffredinol, roedd amgylchedd y ward yn lân, yn dwt ac heb flerwch. Fodd bynnag, sylwasom fod anawsterau o ran cadw'r amgylchedd yn dangnefeddus oherwydd rhaglen ailwampio barhaus oedd yn mynd ymlaen yn y ward. Bydd hyn, fodd bynnag, yn cynyddu nifer y cyfleusterau toiled/cawod, gan mai ychydig o'r rhain sydd yna ar hyn o bryd. Roedd y mannau storio a'r cypyrddau lleiniau yn dwt ar y cyfan.

Sylwasom fod y staff i gyd yn gwisgo bathodyn enw fel ffordd o'u hadnabod a chadarnhaodd sgysiau gyda chleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn ymateb yn fuan i geisiadau am gymorth pan ddefnyddid swynyn.

Hybu Annibyniaeth

Buom yn gwyllo'r staff yn annog cleifion i gadw cymaint o annibyniaeth ag yr oedd modd iddynt o fewn amgylchedd yr ysbyty. Roedd y cleifion yn chwarae rhan weithredol hefyd o ran penderfynu beth yr hoffent ei gael i'w fwyta drwy gyfrwng menter fwydlenni. At hynny, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael rhan mewn dewisiadau ynghylch eu gofal.

Datgelodd sgysiau gyda'r staff eu bod yn medru cysylltu ag arbenigwr mewn gofal dementia o fewn yr Ymddiriedolaeth sy'n rhoi cyngor ynghylch y ffordd fwyaf addas i gadw annibyniaeth unigolion.

Roedd cleifion oedd â nam ar eu clyw yn gallu defnyddio'r system gylch o fewn yr UCW i'w cynorthwyo i aros mor annibynnol ag yr oedd modd yn ystod eu hamser ar y ward.

Perthynas

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod gan y staff amser i wrando arnynt a'u bod ar gael i drafod agweddau ar eu gofal pan oedd angen. Gwelsom fod cleifion wedi ffurfio cyfeillgarwch dda ymysg ei gilydd.

Gorffwys, Cysgu a Gweithgaredd

Câi cleifion y cyfle i brynu papurau newydd a chylchgronau bob dydd a chaent ddefnyddio teledu wrth y gwely, peth yr oedd y cleifion yn cadarnhau eu bod yn ei fwynhau. Drwy sgysiau gyda chleifion a pherthnasau cawsom ein hysbysu eu bod yn medru derbyn ymwelwyr drwy'r dydd (ac eithrio'r amseroedd bwyd sy'n cael eu hamddiffyn) a'u bod hefyd yn medru cael gwasanaethau ffisiotherapi ac adweitheg ar y ward.

Cadarnhaodd sgysiau gyda chleifion eu bod yn cael y cyfle i orffwys yn ystod y dydd. At hynny, cadarnhaodd cleifion fod ganddynt ddigon o obenyddiau a blancedi ac y gallent ofyn am ragor i'w cadw'n gyfforddus.

Sicrhau Cysur, Lledfu Poen

Dangosodd trafodaethau gyda chleifion fod y staff yn ymateb yn syth i geisiadau am rywbeth i leddfu poen, ac roedd y cleifion yn ymddangos yn gyfforddus. Fodd bynnag, sylwasom ar absenoldeb tystiolaeth, yn ffurf cofnodion, fod offeryn asesu poen yn cael ei ddefnyddio i fesur poen cleifion (cyn gweini poenladdwr, a/neu i asesu effeithiolrwydd y feddyginiaeth). Gall hyn olygu nad yw poen rhai cleifion bob amser yn cael ei lliniaru/rheoli i'r graddau priodol.

Hylandid Personol ac Ymddangosiad

Dangosodd sgysiau gyda chleifion fod cyfleusterau ar gael iddynt gael cawod neu fath. Fodd bynnag, roedd oedi ambell waith oherwydd mai ychydig o gyfleusterau oedd yn yr UCW ar yr adeg yma. Roedd y cleifion i gyd yn edrych fel pe baent yn derbyn gofal da a sylwyd ar y staff yn cynorthwyo rhai cleifion gyda gofal y geg.

Bwyta ac Yfed

Cawsom fod anghenion maethiad cleifion yn cael eu hasesu'n briodol. At hynny, dangosai sgysiau gyda'r cleifion a'r staff y pwyslais a osodai tîm y ward ar sicrhau bod diodydd yn cael eu cynnig yn rheolaidd. Caiff bwyd ei

reoli'n dda o ran ei amseriad a natur y bwyd sydd ar gael ac anogir a chynorthwyr y cleifion i fwyta'u prydau yn ôl yr angen a nodwyd.

Nid oedd ystafell fwyta ar gael i gleifion o fewn yr UCW ac felly roedd gofyn i'r cleifion fwyta'u bwyd yn y gwely neu wrth ochr y gwely. Yn ystod yr arolygiad buom yn arsylwi staff yn paratoi'r cleifion i gyd ar gyfer amser bwyd gan sicrhau bod y byrddau wrth y gwlâu wedi cael eu clirio, ffunenni llaith yn cael eu cynnig a'r cleifion wedi eu gosod mewn safle priodol. Roedd y cleifion y buom yn siarad â hwy yn awyddus i wneud sylwadau cadarnhaol am ansawdd a swm y bwyd a ddarperid.

Iechyd a Hylendid y Geg

Buom yn gwylio staff yn cynorthwyo rhai cleifion gyda gofal y geg, oedd wedyn yn cael ei gofnodi, fel sy'n ofynnol yn ôl canllaw Cymru Gyfan. Dywedodd unigolion oedd yn derbyn gofal nad oeddent yn medru glanhau eu dannedd/dannedd gosod eu hunain mor rheolaidd ag y byddent yn hoffi.

Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan y cleifion ynghylch yr ymateb sydyn ar y cyfan gan y staff i alwadau am gymorth i ddefnyddio eu dewis ddull o fynd i'r toiled yn ystod y dydd a'r nos.

Atal Briwiau Gwasgu

Dangosodd trafodaethau gyda rheolwr y ward a'r tîm o staff ar ddyletswydd fod yna drefniadau rheoli addas wedi eu sefydlu i atal cleifion rhag datblygu niwed i'w croen. Drwy archwilio cofnodion cleifion gwiriwyd bod y staff yn asesu ac yn cofnodi'r perygl o niwed i groen pobl yn ddyddiol drwy ddefnyddio dogfennaeth gydnabyddedig Cymru Gyfan.

Pan oedd angen, darperid matresi aer ar gyfer cleifion a mathau eraill o offer lliniaru gwasgedd.

Er gwaethaf yr ymarfer da y sylwyd arno uchod, fe wnaethom ganfod y canlynol mewn perthynas â darparu 'Hanfodion Gofal' lle mae angen gwella fel yr eglurir yn Atodiad A:

- Nid yw amgylchedd y ward yn ddelfrydol oherwydd prinder cyfleusterau cawod/toiled ac oherwydd y rhaglen foderneiddio amgylcheddol sy'n parhau.
- Roedd ystafell deuluol ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, wrth drafod cafwyd ar ddeall fod hon yn ddigroeso, nad oedd wedi ei lleoli'n ddelfrydol nac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd.
- Cawsom beth blerwch ar y ward a bocsys wedi eu storio ar lefel y llawr yn y cypyrddau storio.
- Cafwyd bod comôd mewn ystafell storio angen ei lanhau.

4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn ni wnaethom nodi unrhyw agweddau ar y gwasanaeth oedd angen eu gwella yn y maes hwn.

Ar y cyfan, gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn Felindre yn cael ei redeg yn dda, gyda'r gofal a'r sylw dyledus yn cael ei roi i safonau gofal proffesiynol. Canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro cadarn iawn gyda golwg ar brofiad y cleifion o ofal, ymarfer clinigol, systemau diogel o weithio, hyfforddiant a datblygiad staff a'r agweddau ehangach ar reolaeth sefydliadol.

Dangosodd ein trafodaethau gyda staff y ward, gweithwyr proffesiynol ar ymweliad a chleifion/aelodau o'r teuluoedd, fod tîm y ward yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan uwch reolwyr. Teimlai'r staff eu bod yn cael eu galluogi i wneud gwelliannau yn eu ffordd o ddarparu gofal i gleifion ac i drafod syniadau mewn ffordd agored a thryloyw. At hynny, roedd y staff yn glir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Datgelodd trafodaeth gyda rheolwr y ward y pwyslais a osodid ar gynorthwyo staff bob amser yn ystod eu gwaith. Roedd hyn yn cydnabod yr heriau a'r pwysau sy'n wynebu'r tîm yn ddyddiol ac yn dystiolaeth fod staff llawn cymhelliant a gwaith tîm da yn arwain at well canlyniadau i gleifion. Canfuwyd bod y trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth glinigol wedi eu sefydlu'n dda iawn o fewn yr Ymddiriedolaeth.

4ch. Ansawdd a Diogelwch

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud saith canfyddiad lle mae angen gwella yn y maes yma. Mae ein gofynion wedi eu hegluro yn Atodiad A.

Ar y cyfan, roedd amgylchedd yr UCW yn lân ac yn ffres ac roedd safonau hyllendid i'w gweld yn cael eu cynnal. Dangosai sgysiau gyda chleifion eu bod yn fodlon ar y glanweithdra yn eu rhan hwy a dangosodd trafodaeth gydag aelod o'r staff glanhau ei bod wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w chynorthwyo yn ei gwaith.

Canfuom fod adeiladwaith a gosodiad yr UCW yn creu llawer o heriau i gleifion ac i staff, yn benodol mewn perthynas â chynnal preifatrwydd a darparu cyfleusterau bath/cawod. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod cynllun moderneiddio yn mynd rhagddo i ddiweddarau'r amgylchedd a gwelsom fod y staff yn amlwg yn y cyfamser yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael ei ddiogelu.

Roedd y cleifion yn gallu gweld eu ffordd o gwmpas amgylchedd y ward o ganlyniad i'r arwyddion clir. Amlygodd sgysiau gydag aelod o'r tîm cynnal a chadw fod gwella profiad y cleifion drwy amgylchedd y ward yn flaenoriaeth.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn derbyn gofal yn yr UCW yn ystod y dydd a'r nos. Fe wnaethom hefyd sylwi bod y staff nyrsio a'r staff gofal yn gwisgo gwisg swyddogol yn unol â chod gwisg Cymru Gyfan

gyda bathodynnau enw clir, i gynorthwyo cleifion i wybod beth oedd eu swydd.

Gwnaethom y canfyddiadau canlynol lle mae angen gwella fel yr eglurir yn Atodiad A:

- Gwelsom droli weithdrefnau heb neb yn gofalu amdani a dygwyd hon i sylw'r Ymddiriedolaeth yn ystod yr arolygiad
- Proses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)³ wedi ei gweithredu'n anghywir
- Mynediad posibl at feddyginiaeth heb ganiatâd
- Ffurflen 'Na cheisier dadebru (DNAR)' wedi ei llenwi'n anaddas.
- Ni chanfuwyd bod cofnodion cleifion yn cynnwys offeryn asesu poen cydnabyddedig.
- Cafwyd bod dogfennaeth nyrsio yn brin o dystiolaeth o ofal unigolyn-ganolog, a'i bod wedi ei chwblhau'n anghyson.
- Cofnod gweini meddyginiaeth heb ei gwblhau.

5. Y Camau Nesaf

Mae gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Felindre gwblhau Cynllun Gwella i fynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd a'i gyflwyno i AGIC o fewn dwy wythnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd ar y ward, y gwnaethom ymweld â hi, gan gynnwys y terfynau amser ar gyfer sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n rhai systemig ar draws y gwasanaeth.

Caiff cynllun gwella'r Ymddiriedolaeth, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o broses barhaus arolygu Urddas a Gofal Hanfodol.

³ POVA – Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag Camdriniaeth

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Canolfan Ganser Felindre

Ward: Uned Cefnogaeth Weithredol (ASU)

Atodiad A

Canfyddiadau	Gofynion	Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Ymateb AGIC
Profiad cleifion			
Yn ystod yr arolygiad hwn ni wnaethom unrhyw ganfyddiadau oedd yn gofyn am welliant yn y maes hwn.			
Darparu Hanfodion Gofal			
Nid oedd amgylchedd y ward yn ddelfrydol oherwydd bod y cyfleusterau ar gyfer y cleifion yn gyfyngedig a bod y cynllun parhaus i foderneiddio'r amgylchedd yn mynd ymlaen: Fe wnaeth ein harsylwadau a'n trafodaethau gyda'r staff a chleifion amlygu'r ffaith mai nifer cyfyngedig oedd yna o gyfleusterau toiled a chawod ar gyfer cleifion a nodwyd bod y cynllun moderneiddio oedd yn mynd rhagddo ar y ward yn tarfu ychydig ar orffwys a threfn arferol y cleifion.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth roi sicrwydd ynghylch y mesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad digonol at gyfleusterau a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r aflonyddwch a achosir i gleifion yn ystod y cynllun moderneiddio sy'n mynd rhagddo.		

Roedd ystafell deuluol/ymgynggori ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, roedd trafodaethau gyda'r staff yn amlygu nad oedd hon wedi ei lleoli'n ddelfrydol nac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Canfu ein harsylwadau y byddai angen ailwampio'r ystafell deuluol/ymgynggori i sicrhau amgylchedd mwy croesawus.	Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried darparu amgylchedd mwy addas a chroesawus i'w ddefnyddio fel ystafell deuluol/ymgynggori.		
Canfuom flerwch ar y ward a bocsys wedi eu storio ar lefel y llawr o fewn y cypyrddau storio.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau yn y dyfodol ei bod yn glynu drwy'r amser wrth bolisi a gweithdrefnau Atal a Rheoli Haint Cymru Gyfan. Rhaid bod yn glir sut y caiff y rhain eu sefydlu'n gadarn ac y sicrhau cydymffurfio wrth redeg y ward.		

Canfuwyd bod comôd oedd wedi ei gadw mewn ystafell storio angen ei lanhau.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn glynu drwy'r amser wrth bolisi a gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer atal a rheoli haint. Bod yn glir sut y caiff y rhain eu sefydlu'n gadarn ac y sicrheir cydymffurfio wrth redeg y ward.		
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
Yn ystod yr arolygiad hwn ni wnaethom ganfyddiadau oedd yn gofyn am welliannau yn y maes hwn			
Ansawdd a Diogelwch			
Mynediad posibl at feddyginiaeth gan unigolion heb ganiatâd: Fe wnaethom nodi nad oedd modd cloi'r oergell na'r cypyrddau cyffuriau (ac eithrio cwpwrdd y Cyffuriau Rheoledig) a bod modd i unigolion heb ganiatâd fynd i mewn i'r ystafell	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel.		

feddyginiaethau oherwydd bod y drws yn araf yn cau. Ar adegau, nid oedd y staff yn sicrhau bod y drws wedi cau'n iawn a'i gloi pan oeddent yn gadael yr ystafell.			
Ffurflen "Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) Cymru Gyfan" wedi ei chychwyn mewn camgymeriad a phroses POVA anghywir wedi ei dilyn wedi hynny: Gwelwyd bod ffurflen POVA wedi cael ei dechrau ac wedi ei chynnwys gyda chofnodion claf. Fodd bynnag, cadarnhaodd trafodaethau gyda staff fod y POVA wedi ei dechrau mewn camgymeriad. Nid oedd y ffurflen atgyfeirio POVA wedi cael ei thynnu allan o gofnodion y claf ac nid oedd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw wedi ei ddogfennu.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau yn y dyfodol bod arweiniad Cymru Gyfan ar gyfer y broses o "Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed" yn cael ei weithredu'n gywir.		

Gwelsom droli weithdrefnau heb neb yn gofalu amdani a dygwyd hon i sylw'r Ymddiriedolaeth yn ystod yr arolygiad.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn glynu drwy'r amser wrth bolisi a gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer atal a rheoli haint a bod yn glir sut y caiff y rhain eu sefydlu'n gadarn ac y sicrheir cydymffurfio wrth redeg y ward.		
Ffurflen 'Na cheisier dadebru (DNAR)' wedi ei llenwi'n anaddas: Roedd dogfennaeth DNAR yn cofnodi cais claf i beidio â thrafod y broses ar y pryd hwnnw. Fe wnaeth y staff meddygol dan sylw gwblhau'r ffurflen yn amhriodol heb gofnodi trafodaeth ddilynol gyda'r claf a/neu ei deulu/gofalwyr.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod gweithdrefn Cymru gyfan ar gyfer DNAR yn cael ei dilyn a'i chofnodi'n gywir.		

Cofnod gweini meddyginiaeth (MARS) anghyflawn: Wrth graffu ar bolisi gweini meddyginiaeth yr Ymddiriedolaeth gwelwyd ei fod yn rhoi arweiniad clir i'r staff ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran gweini meddyginiaeth. Fodd bynnag, canfuom anghysondebau mewn nifer bychan o gofnodion gweini meddyginiaeth, lle y dylid cael naill ai (a) llofnod nyrs neu (b) cod wedi ei roi am beidio â gweini. Yn ystod yr arolygiad fe wnaethom hysbysu uwch nyrs y ward a gofyn am i'r canfyddiad hwn gael ei hysbysu drwy system DATIX.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddarparu cadarnhad ynghylch yr hysbysiad DATIX, a sicrhau rheolaeth ddiogel ar feddyginiaethau.		
Ni chanfuwyd bod cofnodion cleifion yn cynnwys offeryn asesu poen cydnabyddedig.	Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddarparu manylion offeryn safonol a ddefnyddir o fewn yr Ymddiriedolaeth i asesu		

	a mesur rheolaeth poen		
Cafwyd bod dogfennaeth nyrsio yn brin o dystiolaeth o ofal unigolyn-ganolog, a'i bod wedi ei chwblhau'n anghyson: Ychydig o dystiolaeth oedd yna o asesiad nyrsio cyfannol ac roedd cynlluniau gofal safonol heb eu haddasu i adlewyrchu elfennau penodol o ymarfer, nad oedd ar y claf eu hangen. Canfuom dystiolaeth o werthuso mewn cofnodion cleifion oedd heb sail cynllun gofal i fesur yn ei erbyn.	Mae'r ddogfennaeth i adlewyrchu gofal unigolyn-ganolog.		